


## Visiting the reserve • Ymweld â'r warchodfa

The reserve is approximately 2 miles south-west of Ruthin (Grid Ref. SJ 121540). Limited roadside parking can be found just over Eyarth Bridge, at SJ 127553, which is near the start of the path to the reserve. Some of the walk is quite steep and uneven underfoot - walking boots should be worn.

To get to the reserve, follow the Public footpath along the old railway line, cross the river and go up through the woodland. At the stile, cross the field to a stile on the right. Cross the lane and follow the footpath behind the house. This footpath climbs through the woodland and after a sharp right turn becomes a more defined path to a gate at the northern end of the reserve.




# Gwarchodfa Natur Glöynnod Byw Eyarth Rocks Butterfly Conservation Nature Reserve



Pearl-bordered Fritillary  
Briteg Berlog

Eyarth Rocks forms part of a landscape rich in geological and biological interest. It boasts an exceptional number of butterfly species, including the rare Pearl-bordered Fritillary.

Mae Creigiau Eyarth yn rhan o dirlun sy'n gyfoeth o ddiddordeb daearegol a biolegol. Mae yno nifer eithriadol o rywogaethau o löynnod byw, yn cynnwys y Briteg Perlog prin.



Butterfly Conservation is a national charity dedicated to saving butterflies, moths and their habitats. For more information, please contact; Butterfly Conservation, Manor Yard, East Lulworth, Wareham, Dorset BH20 5QP 0870 7744309 e-mail: [info@butterfly-conservation.org](mailto:info@butterfly-conservation.org) website: [www.butterfly-conservation.org](http://www.butterfly-conservation.org)

Butterfly Conservation Wales Office, 10 Calvert Terrace, Swansea SA1 5AR phone: 0870 7706153

The local branch of Butterfly Conservation runs many workshops, lectures and guided walks throughout North Wales, including on this site. For more information, look at our website: [www.northwalesbutterflies.org.uk](http://www.northwalesbutterflies.org.uk) or contact either of the members below. If you would like to help conservation efforts on Eyarth Rocks, please contact Jan Miller, 01352 711198, [jan@7wells.org](mailto:jan@7wells.org) or Rob Whitehead, 01824 704507, [roaud@haulfryn99.fsnet.co.uk](mailto:roaud@haulfryn99.fsnet.co.uk)

Elusen genedlaethol yw Gwarchod Glöynnod Byw sy'n ymroi i achub glöynnod byw, gwyfynod a'u cynefinoedd. Am wybodaeth bellach, cysylltwch â: Gwarchod Glöynnod Byw, Manor Yard, East Lulworth, Wareham, Dorset BH20 5QP 0870 7744309 e-bost: [info@butterfly-conservation.org](mailto:info@butterfly-conservation.org) gwefan: [www.butterfly-conservation.org](http://www.butterfly-conservation.org)

Gwarchod Glöynnod Byw ng Nghymru, 10 Rhes Calvert, Abertawe SA1 5AR ffon: 0870 7706153

Mae'r gangen leol o'warchod Glöynnod Byw yn cynnal sawl gweithdy, darlith a theithiau tywys ledled Gogledd Cymru, yn cynnwys y safle hwn. Am wybodaeth bellach, ewch am dro i'n gwefan: [www.northwalesbutterflies.org.uk](http://www.northwalesbutterflies.org.uk) neu cysylltwch ag un o'r aelodau isod. Os hoffech helpu gyda'r ymdrechion cadwriaethol ar Greigiau Eyarth, cysylltwch â Jan Miller, 01352 711198, [jan@7wells.org](mailto:jan@7wells.org) neu Rob Whitehead, 01824 704507, [roaud@haulfryn99.fsnet.co.uk](mailto:roaud@haulfryn99.fsnet.co.uk)

Registered in England No. 2206468 Registered Charity No. 254937  
Cofrestredig yn Lloegr Rhif 2206468 Elusen Gofrestredig Rhif 254937

Mae'r warchodfa oddeutu 2 filltir i'r de orllewin o Ruthin (Cyf. Grid SJ 121540). Ceir ychydig o fannau parcio yr ochr draw i Bont Eyarth, yn SJ 127553, sydd yn ymyl dechrau'r llwybr i'r warchodfa. Mae peth o'r daith yn eithaf serth ac yn anwastad dan draed - dylid gwisgo esgidiau cerdded.


I gyrraedd y warchodfa, dilynwch y llwybr troed cyhoeddus ar hyd yr hen lein reiffordd ac i fyny drwy'r coed. Wrth gyrraedd y gamfa, croeswch y cae i gamfa ar y dde. Croeswch y lôn a dilynwch y llwybr troed y tu ôl i'r tŷ. Mae'r llwybr troed hwn yn dringo drwy'r coetir ac wedi tro sydyn i'r dde mae'n dod yn llwybr amlycach yn arwain at giât ym mhen gogleddol y warchodfa.

Acquisition and management of the reserve has been grant aided by Countryside Council for Wales. Prynwyd y warchodfa a fe reolwyd hi drwy gymorth grant gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru.

Eyarth Rocks forms part of the Craig-adwy-wynt Site of Special Scientific Interest, a larger area protected primarily for the nationally scarce limestone pavement present. This geological feature is important for many specialist plants and invertebrates, especially butterflies - the thin calcareous soils warm up quickly and also support a wide range of caterpillar foodplants. 32 of the 34 butterfly species found in North East Wales have been seen here within the last five years.

Eyarth Rocks is one of the most important sites in the Wales for the Pearl-bordered Fritillary. This species has declined so much that this is one of only nine sites known of in Wales and one of the few which can be considered secure. It is hoped that with careful management, this reserve will provide a stronghold from where it can spread to similar areas nearby.

Although all based on limestone, different soil thicknesses and past land use have enabled a range of habitats to develop. Limestone pavement, flowery grassland, bracken stands, scrub, pockets of acidic soil and woodland are all present on Eyarth Rocks. It is the range of habitats that enables so many different species to be found here.



Moonwort  
Lloer-Redynen



Mae Creigiau Eyarth yn rhan o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Craig-adwy-wynt, ardal fwy sydd dan warchodaeth oherwydd bod yno gynefin cenedlaethol brin o balmant calchfaen. Mae'r ddaear yn bwysig i lawer o blanhigion ac infertebrataid arbenigol, yn enwedig glöynnod byw gan fod y pridd calchaid tenau'n cynhesu'n gyflym a hefyd yn gartref i amrywiaeth eang o fwyd i lindys. Mae 32 allan o'r 34 o rywogaethau o löynnod byw a welir yng Ngogledd Ddwyrain Cymru wedi'u gweld yma yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Mae Creigiau Eyarth yn un o'r safleoedd pwysicaf yn y wlad i'r Brith Perlog. Mae'r rhywogaeth yma wedi dirywio cymaint fel mai dyma un o ddim ond 9 safle yng Nghymru ble gwyddir ei fod yn bodoli, ac un o'r ychydig a ystyrir fel safle diogel iddo. Gyda rheolaeth ofalus, gobeithir y bydd y warchodfa hon yn gadarnle iddo ehangu i ardaloedd tebyg cyfagos.


Er mai calchfaen yw'r sylfaen i gyd, mae gwahanol drwch yn y pridd a gwahanol ddefnydd tir yn y

gorffennol wedi galluogi i amrywiaeth o gynefinoedd ddatblygu. Ceir palmant calchfaen, glaswelltir blodeuog, rhedyn, prysgwydd, pocedi o bridd asid a choetir ar Greigiau Eyarth. Yr amrywiaeth yma o gynefinoedd sy'n galluogi i gymaint o wahanol rywogaethau fodoli yma.

Dog Violet  
Fioled y Cŵn



Hound's Tongue  
Tafod y Bytheiad



Do not disturb wildlife

Peidiwch ag aflonyddu'r bywyd gwylt

Keep dogs on leads and do not allow them to foul the site

Cadwch eich cŵn ar dennyn a pheidiwch â'i gadael iddynt fudro'r safle

Keep clear of dangerous cliffs

Cadwch draw o glogwyni peryglus

Limestone pavement is protected by law and removing stone is an offence

Amddiffynnwyd y palmant carreg galch gan gyfraith ac mae cymeryd creigiau oddi yma yn drosedd

## Limestone pavement

Limestone pavement is one of Britain's rarest habitats. The limestone here was laid down in warm shallow seas 300 million years ago and exposed by glaciation in the last Ice Age 10,000 years ago. Limestone pavement occurs only where the rock was dense enough to withstand total destruction by weathering, but the natural joints in the rock have become enlarged to create deep, narrow gulleys (grykes) leaving higher squares (clints) in between.



The grykes provide a moist, shady and sheltered environment that enables shade loving woodland plants such as Hart's-tongue Fern, Wall Rue, Wood Sorrel and Yellow Archangel to grow alongside plants typical of limestone outcrops and grassland such as Salad Burnet, Wood Sage, Hound's-tongue and Bird's-foot Trefoil.




The limestone pavement surface is free draining and reflects sunlight so is dry and warm. Many butterflies like to bask, so the pavement area is a good place to see Common Blues, Small Heath, and various skippers.



## Flowery grassland

In parts of the reserve, a combination of thin, nutrient poor soils and rabbit grazing have prevented coarse grasses from dominating and so a diverse plant community typical of dry limestone grassland has developed. Specialist plants include Moonwort, Early Purple Orchid, Greater Butterfly Orchid, Common Rockrose, Bloody Crane's-bill and Mountain Melick.

It is the mix of larval food-plants on a warm sunny slope, which makes these areas especially good for butterflies. The caterpillars of many 'brown' butterflies feed on fine grasses.



Common Rockrose is the larval foodplant of Brown Argus. The Dingy Skipper and Common Blue caterpillars feed on Bird's-foot Trefoil and the Grizzled Skipper caterpillars on Barren Strawberry.



## Violets and Bracken

Bracken occurs where the soil is deeper; it provides shade for woodland plants such as Violets, Wood Anemone, Bugle and Celandine. Mosaics of Bracken with Violets beneath with open areas are the best place to find Dark Green, Small Pearl-bordered and Pearl-bordered Fritillaries.



These Fritillaries are becoming rarer in Wales. Their caterpillars all feed on Violets, but it is the Bracken and its leaf litter that provides the sheltered, warm micro-climate they need to complete their development in the cool North Wales weather.

## Scrub Management

In the absence of grazing, scrub has taken over in many places at the expense of the more valuable open grassland. Although Butterfly Conservation volunteers, with grants from the Countryside Council for Wales, have cleared a lot of the scrub to restore the valuable grassland and bracken mosaic, this is an ongoing job and additional volunteers are always welcome.

The scrub also contains a variety of tree and shrub species of conservation interest, including Wych Elm the larval food-plant of White-letter Hairstreak. Restoring the reserve's habitats therefore needs a careful but firm approach, retaining individual trees and bushes according to their value. Eventually some form of grazing will be reinstated on the site to help suppress scrub re-growth and maintain the grassland.


## Palmant calchfaen

Palmant calchfaen yw un o gynefinoedd prinnaf Prydain. Gosodwyd y calchfaen yma i lawr mewn moroedd bas cynnes 300 miliwn o flynyddoedd yn ôl a daeth i'r golwg yn sgil rhewlfiad yn ystod yr Oes Iâ ddiwethaf 10,000 o flynyddoedd yn ôl. Dim ond pan fo'r graig yn ddigon trwchus i wrthsefyll ei dinistrio'n llwyr gan y tywydd y ceir palmant calchfaen, ond mae'r tywydd yn lledu'r uniadau naturiol yn y graig i greu rhigolau dyfnion, cul (greiciau) a chan adael sgwariau uwch (clintiau) rhyngddynt.



Maidenhair Spleenwort • Rhedynen y Fagwyr

Mae'r greiciau'n darparu amgylchedd llaith, cysgodol a chudd sy'n galluogi i blanhigion coetir sy'n hoffi'r cysgod, fel Tafod yr Hydd, Duegredynen y Muriâu, Suran y Coed a'r Farddanhadlen Felen, dyfu ochr yn ochr â phlanhigion sy'n nodweddiadol o allgreigiau a glaswelltiroedd calchaid, fel Gwyddlwyn, Saets Gwyllt, Tafod y Bytheiad a Phys y Ceirw.



Large Skipper • Y Gwibiwr Bach

Mae arwyneb y palmant calchfaen yn draenio'n rhydd ac yn adlewyrchu golau'r haul ac felly mae'n sych ac yn gynnes. Mae llawer o löynnod byw'n mwynhau'r haul felly mae'r palmant yn lle da i weld y Glesyn Cyffredin, Gweundir Bach a sawl Gwibiwr.

## Glaswelltir blodeuog

Mewn rhannau o'r warchodfa, mae cyfuniad o bridd tenau, heb lawer o faeth ynddo, a'r ffaith bod cwningod yn pori yno, wedi atal y glaswelltiroedd cras rhag bod yn rhy gryf ac felly mae cymuned o blanhigion amrywiol sy'n nodweddiadol o laswelltir calchfaen sych wedi datblygu yno. Ymhlith y planhigion arbenigol mae'r Lloer-Redynen, Tegeirian Porffor y Gwanwyn, y Tegeirian Llydanwyrdd Mawr, y Cor-rosyn Cyffredin, Pig yr Aran Ruddgoch a Meligwellt Pendrwm.

Y gymysgedd o fwydydd i larfa ar lethr heulog cynnes sy'n gwneud y manau hyn yn rhai arbennig o dda i löynnod byw. Mae lindys llawer o löynnod byw 'brown' yn bwydo ar laswelltau mân.



Ringlet • Iâr Fach y Glaw



Wall • Iâr Fach y Fagwyr

Y Cor-rosyn Cyffredin yw bwyd larfa'r Argws Glas. Mae lindys y Gwibiwr Llwyd a'r Glesyn Cyffredin yn bwydo ar Bys y Ceirw ac mae lindys y Gwibiwr Brith yn bwydo ar Fefus Coeg.

## Fioledau a Rhedyn

Ceir rhedyn lle mae'r pridd yn ddyfnach; mae'n darparu cysgod ar gyfer planhigion y Goedwig fel Fioledau, Anemone'r Coed, Glesyn y Coed a Llym y Llygad.



Dark Green Fritillary  
Britheg Werdd



Dark Green Fritillary  
Britheg Werdd

Y mosâig o Redyn gyda Fioledau oddi tano ac ardaloedd agored yw'r man gorau i ganfod y Brith Gwyrdd, y Brith Perlog Bach a'r Brith Perlog.

Mae'r Brithion hyn yn mynd yn fwy a mwy prin yng Nghymru ac mae eu lindys i gyd yn bwydo ar Fioledau, ond y Rhedyn a'i sbwriel o ddail sy'n darparu'r micro-hinsawdd cynnes cysgodol angenrheidiol i alluogi i lindys y Brith Perlog ddatblygu'n gyflawn yn nhywydd oerach Gogledd Cymru

## Rheoli Prysgwydd

Heb anifeiliaid yn pori, mae'r prysgwydd wedi meddiannu sawl man ar draul y glaswelltir agored mwy gwerthfawr. Er bod gwirfoddolwyr yr elusen Cadwraeth Glöynnod Byw, gyda grantiau gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, wedi clirio llawer o'r prysgwydd er mwyn adfer y glaswelltir gwerthfawr a'r mosâig o redyn, mae hwn yn waith parhaus a chroesewir gwirfoddolwyr ychwanegol bob amser.

Hefyd mae'r prysgwydd yn cynnwys amrywiaeth o rywogaethau o goed a llwyni sydd o ddiddordeb cadwriaethol, yn cynnwys Llwyfenni Llydanddail sy'n fwyd i'r Brithribin Gwyn. Felly mae angen gweithredu'n gadarn ond yn ofalus wrth adfer cynefinoedd y warchodfa a rheoli'r prysgwydd. I gynnal y glaswelltir ac arbed ail dyfiant y prysg fe fydd porfa, o rhyw fath, yn cael ei ail sefydlu ymhnen amser.